# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Mawrth 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (323)v5

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar Fargeinion Dinesig

(30 munud)

## 4 Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(15 munud)

**NDM6015 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

## 5 Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau

(5 munud)

**NDM6010 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan adran 1(2) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, yn penodi Syr Roderick Evans yn Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Mesur hwnnw, am gyfnod o chwe blynedd gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2016.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y tair eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad

(5 munud)

**NDM6013 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 – Deddfau'r Cynulliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2016; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26A mewn perthynas â Deddfau Preifat y Cynulliad a Rheol Sefydlog 26B mewn perthynas â Deddfau Hybrid y Cynulliad

(5 munud)

**NDM6014 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26A – Biliau Preifat a Rheol Sefydlog 26B – Biliau Hybrid' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2016; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26A a chyflwyno Rheol Sefydlog newydd 26B, fel y nodir yn Atodiadau B a D i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

## 8 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 18 a 30A mewn perthynas â Gwelliannau Amrywiol

(5 munud)

**NDM6012 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 18 – Cyfrifon Cyhoeddus a Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru – a Rheol Sefydlog 30A – Cydsyniad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2016; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 18 a 30A, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

(60 munud)

**NDM6006 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2016.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2016.

**Dogfennau Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Ymateb Llywodraeth Cymru

## 10 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC

(60 munud)

**NDM6009 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2016.

2. Yn cytuno y dylai'r BBC, os yw'n derbyn argymhelliad y pwyllgor, osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.

**Dogfen Ategol:**

[Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol]

## 11 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Dyfodol ynni craffach i Gymru?

(60 munud)

**NDM6007 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i Ddyfodol Ynni Craffach i Gymru, a [osodwyd] yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2016.

**Dogfen Ategol:**

[Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd]

## 12 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

(60 munud)

**NDM6011 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal sylfaenol yng Nghymru, gyda phwysau cynyddol ar adnoddau a phoblogaeth sy'n heneiddio gyda mwy o anghenion gofal cymhleth;

2. Yn nodi bod y canran o gyllid y GIG a gaiff ei wario ar ymarfer cyffredinol wedi gostwng o 10.27 y cant yn 2005-2006 i 7.9 y cant yn 2015-2016;

3. Yn nodi bod gan Gymru y nifer leiaf ond un o feddygon teulu yn y DU, gyda 23 y cant o feddygon teulu dros 50 oed ac anawsterau o ran hyfforddi digon o feddygon teulu i gyflawni gofynion y gweithlu yn y dyfodol; a

4. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

a) cyflwyno cynllun mynediad at feddygon teulu i ariannu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol i wella mynediad cleifion at feddygon teulu;

b) gwella argaeledd hyfforddiant iechyd meddwl arbenigol ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol;

c) adolygu gallu'r gweithlu ymarfer cyffredinol i ddiwallu anghenion cleifion;

d) gwella addysg y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd priodol;

e) adolygu'r gofynion gweinyddol y mae meddygon teulu yn eu hwynebu; a

f) gwella'r broses o hyrwyddo ymarfer cyffredinol fel proffesiwn.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer meddygon teulu, a sicrhau bod y rotas hyfforddiant i feddygon teulu yn cwmpasu ardaloedd gwledig a difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i feddygon teulu sy'n ymarfer yn yr ardaloedd hynny.

## 13 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6008 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Caerfyrddin 1966 a 2016: 50 mlynedd sydd wedi newid Cymru

Hanes datganoli ers 1966 a'r potensial i greu llywodraeth ddatganoledig yn y dyfodol a fydd yn darparu gwasanaethau ardderchog

## 14 Cyfnod pleidleisio

## 15 Datganiadau i Gloi a Chludo'r Byrllysg o'r Siambr

Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddiddymu am hanner nos ar 6 Ebrill 2016. Ni fydd busnes yn y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y Pumed Cynulliad yn dechrau wedi diwrnod yr etholiad ar 5 Mai 2016. Bydd angen i'r Cynulliad gynnal Cyfarfod Llawn i ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd o fewn saith diwrnod gwaith wedi dyddiad yr etholiad.

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Mawrth 2016 i'w hateb ar 16 Mawrth 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

1. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chymheiriaid yn y gwledydd datganoledig am oblygiadau cyllido tynnu allan o'r UE? OAQ(4)0684(FIN)

2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am y dyraniad cyllidebol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0676(FIN)**W**

3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddarparu i gefnogi sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu dyfodol? OAQ(4)0680(FIN)**R**

4. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd refferendwm yr UE yn ei chael ar gyllid Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0678(FIN)

5. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar etholaeth Llanelli? OAQ(4)0677(FIN)**W**

6. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllid Ewropeaidd ar Dorfaen? OAQ(4)0682(FIN)

7. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebau gwariant cyfalaf yn y dyfodol? OAQ(4)0674(FIN)

8. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y dyraniad cyllidebol i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi? OAQ(4)0681(FIN)**W**

9. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganran caffael sector cyhoeddus sy'n cael ei chadw yng Nghymru? OAQ(4)0671(FIN)

10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth yw'r goblygiadau ar gyfer cronfeydd strwythurol yng Nghymru os bydd y DU yn penderfynu gadael yr UE yn y refferendwm sydd i ddod? OAQ(4)0685(FIN)

11. Jeff Cuthbert (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth cronfeydd strwythurol yr UE yn etholaeth Caerffili? OAQ(4)0675(FIN)

12. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gaffael yn y sector cyhoeddus? OAQ(4)0683(FIN)

13. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli adnoddau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0673(FIN)

14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth? OAQ(4)0679(FIN)

15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian i bobl Sir Benfro? OAQ(4)0672(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa gynnydd a wnaed o ran diwygio llywodraeth leol yn ystod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0684(PS)**W**

2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad y pecyn o gefnogaeth ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(4)0683(PS)

3. Leanne Wood (Canol De Cymru): Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran gwella lles cyn-filwyr yng Nghymru? OAQ(4)0685(PS)

4. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0691(PS)

5. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwyr allanol yn darparu swyddogaethau awdurdodau lleol?  OAQ(4)0679(PS)

6. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Caerfyrddin? OAQ(4)0682(PS)**W**

7. Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0686(PS)

8. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)0693(PS)**W**

9. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llywodraethiant awdurdodau lleol yn ardal bae Abertawe? OAQ(4)0681(PS)

10. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig? OAQ(4)0688(PS)

11. Christine Chapman (Cwm Cynon): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0689(PS)

12. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei weledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0687(PS)

13. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu canlyniadau posibl ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0680(PS)

14. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): Pa baratoadau sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer datganoli posibl heddlu? OAQ(4)0694(PS)**W**